# Ymgynghoriad ar Ddiwygio Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013

## Crynodeb Gweithredol

Rheolir dyfroedd ymdrochi ar hyn o bryd o dan Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 (o hyn ymlaen, ‘y Rheoliadau’) sy’n berthnasol i Gymru a Lloegr. Roedd y Rheoliadau’n trosi Cyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi’r UE 2006 yn gyfraith ddomestig ac fe’u cymhathwyd i gyfraith y DU o dan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023.

Ar ôl cael eu dynodi’n derfynol fel dyfroedd ymdrochi, mae dyfroedd arfordirol a mewndirol yn cael eu monitro gan Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) yn Lloegr a Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW) yng Nghymru. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio profion a samplu ansawdd dŵr i lywio negeseuon iechyd y cyhoedd ar y risgiau iechyd sy’n gysylltiedig ag ymdrochi a nodi lle mae angen gwelliannau.

Mae newidiadau wedi bod o ran sut a ble mae pobl yn defnyddio dyfroedd ymdrochi ers cyflwyno’r Rheoliadau. Ar eu ffurf bresennol, mae’r Rheoliadau’n defnyddio dull ‘un ateb i bawb’ yn gyffredinol ar gyfer dynodiadau dyfroedd ymdrochi, monitro ansawdd dŵr a’r broses dad-ddynodi. Efallai y bydd manteision i ddiwygio’r Rheoliadau er mwyn rhoi mwy o ystyriaeth i ffactorau safle-benodol yn y prosesau hyn. Diben y Rheoliadau yw sicrhau bod iechyd y cyhoedd yn cael ei ddiogelu drwy ddefnyddio dulliau monitro a system ddosbarthu. Bwriad y llywodraeth yw mynd ar drywydd cynnydd yn y gwaith o ddynodi safleoedd dŵr ymdrochi diogel.

Am y rhesymau hyn, mae Defra a Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar fesurau diwygio posibl i wella’r Rheoliadau presennol a chynyddu hyblygrwydd. Mae’r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar 3 diwygiad arfaethedig yn ogystal â 9 diwygiad technegol i wella’r defnydd o adnoddau Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod y Rheoliadau’n cyd-fynd ag arferion samplo modern. Mae hefyd yn ceisio barn ar ddau ddiwygiad ehangach a allai fod yn rhan o gamau diwygio rheoleiddio yn y dyfodol. Ymgynghoriad ar y cyd gan Defra a Llywodraeth Cymru yw hwn. Bydd y penderfyniadau ynghylch a ddylid gwneud deddfwriaeth i gyflwyno diwygiadau yn cael eu gwneud yn annibynnol gan Weinidogion perthnasol mewn perthynas â’u hawdurdodaethau cenedlaethol eu hunain. Mae’r rheoliadau’n cael eu rhannu ar hyn o bryd, ond mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli dyfroedd ymdrochi yn annibynnol o fewn eu hawdurdodaeth genedlaethol eu hunain.

### Diwygiadau arfaethedig

Diwygiad craidd 1: Dileu’r ddarpariaeth dad-ddynodi awtomatig o’r Rheoliadau. Ar hyn o bryd, mae dyfroedd ymdrochi’n cael eu dad-ddynodi’n awtomatig ar ôl pum mlynedd o

ddosbarthiad ‘gwael’ yn olynol. Mae hwn yn aml yn gyfnod rhy fyr i fuddsoddiadau a gwelliannau gael eu gwneud. Yn hytrach, byddai’r gwaith o ddad-ddynodi yn seiliedig ar adolygiad ac argymhelliad gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Diwygiad craidd 2: Cynnwys y posibilrwydd o wella ansawdd dŵr safle i o leiaf ‘digonol’ fel maen prawf ar gyfer dynodiad terfynol. Byddai hyn yn osgoi gwerth gwael am arian, drwy gyfyngu ar wariant lle nad yw gwella ansawdd dŵr yn ymarferol nac yn gymesur.

Diwygiad craidd 3: Cael gwared â dyddiadau penodol y tymor ymdrochi sy’n cael ei fonitro o’r Rheoliadau. Byddai dyddiadau tymhorau’n cael eu symud i ganllawiau a fyddai’n caniatáu i Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru addasu’r dyddiadau i gyd-fynd yn well ag anghenion lleol yn y dyfodol.

Diwygio ehangach 1: Esbonio ac ehangu’r diffiniad o ‘ymdrochwyr’ i gynnwys defnyddwyr dŵr eraill. Ar hyn o bryd, mae ystyr cyffredin ‘ymdrochwyr’ yn golygu nofwyr yn unig. Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid ystyried ystod ehangach o ddefnyddwyr dŵr, ac os felly, pa fathau eraill o ddefnyddwyr ddylai gael eu cynnwys a sut y gellir cydbwyso eu hanghenion hwy yn erbyn defnyddwyr presennol.

Diwygio ehangach 2: Defnyddio nifer o fannau monitro ym mhob safle dŵr ymdrochi lle bo’n ddefnyddiol i ddosbarthu ansawdd dŵr. Rydyn ni’n ceisio barn ynghylch a fyddai gwaith monitro ychwanegol i gasglu amrywiaeth o ran ansawdd dŵr ar draws safleoedd yn fuddiol.

## Amcanion yr ymgynghoriad

Drwy’r ymgynghoriad hwn, mae Defra a Llywodraeth Cymru yn gofyn am amrywiaeth mor eang â phosibl o safbwyntiau ar y diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae’r ddogfen ymgynghori hon yn crynhoi’r dystiolaeth a’r rhesymeg dros bob diwygiad arfaethedig.

### Cwmpas yr ymgynghoriad

Amcan yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn y cyhoedd a rhanddeiliaid mewn perthynas â’r diwygiadau canlynol:

- 3 newid polisi craidd
- 9 diwygiad technegol
- 2 o newidiadau polisi ehangach y gellid eu cynnwys mewn unrhyw gamau diwygio yn y dyfodol

Mae’r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y canlynol:

- A ydych chi’n cefnogi’r diwygiadau arfaethedig.

- A ydych chi'n rhagweld unrhyw effeithiau negyddol yn deillio o'r diwygiadau arfaethedig, a beth allai'r effeithiau hyn fod.

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydym hefyd yn gofyn am safbwyntiau a thystiolaeth ynghylch newidiadau ehangach posibl i'r Rheoliadau. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau Defra a Llywodraeth Cymru ynghylch a ddylid argymell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Ffermio a Materion Gwledig ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig fynd ar drywydd camau diwygio yn y dyfodol.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at bawb sydd â diddordeb mewn dyfroedd ymdrochi. Gall hyn gynnwys y canlynol:

- Awdurdodau lleol, yn enwedig y rhai sydd â dyfroedd ymdrochi a dyfroedd ymdrochi posibl yn eu hawdurdodaeth.
- Cynrychiolwyr lleol fel cynghorwyr neu Aelodau Seneddol.
- Tirfeddianwyr preifat gyda dyfroedd ymdrochi a dyfroedd ymdrochi posibl ar eu tir.
- Ffermwyr a thirfeddianwyr, a'u cynrychiolwyr, yng nghyffiniau dyfroedd ymdrochi a dyfroedd ymdrochi posibl y gallai eu tir effeithio ar ansawdd dŵr ymdrochi lleol.
- Busnesau a pherchnogion busnes, gan gynnwys cwmnïau dŵr a'r rhai sy'n ymwneud â hamdden a thwristiaeth, y gallai prosesau dynodi a monitro dŵr ymdrochi effeithio arnynt.
- Grwpiau budd y cyhoedd sydd â diddordeb mewn ymdrochi a chwaraeon a gweithgareddau hamdden dŵr eraill, dyfroedd ymdrochi, a diogelu'r amgylchedd.
- Aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn ymdrochi a dyfroedd ymdrochi.

Ymgynghoriad ar y cyd yw hwn a fydd yn ystyried barn rhanddeiliaid yng Nghymru a Lloegr. Er bod y Rheoliadau presennol yn berthnasol i Gymru a Lloegr, mae'r gwaith o reoli a goruchwylio dyfroedd ymdrochi wedi'i ddatganoli. Mae lle i Gymru a Lloegr wyro oddi wrth bolisi wedi'i alinio, ond gall alinio fod yn ddefnyddiol gan y gallai gweithgareddau sy'n effeithio ar un rhan o'r DU effeithio ar un arall. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, bydd y penderfyniadau ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â'r diwygiadau hyn mewn deddfwriaeth yn cael eu gwneud yn annibynnol gan Ysgrifennydd Gwladol y DU dros yr Amgylchedd, Ffermio a Materion Gwledig ac Ysgrifennydd Cabinet Cymru dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig ar gyfer eu hawdurdodaethau perthnasol.

### Cyflwyniad a chyd-destun polisi

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu cryn ddiddordeb gan y cyhoedd mewn ansawdd dŵr, gan gynnwys cyflenwi a rheoli seilwaith dŵr a thrin dŵr a'i effaith ar yr amgylchedd naturiol ac iechyd y cyhoedd. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi

ymrwymo i wneud y newidiadau sydd eu hangen i ddarparu dŵr ymdrochi glân a diogel i'r cyhoedd.

Dyfroedd ymdrochi yw un o'r ffyrdd mwyaf gweladwy y mae'r cyhoedd yn rhyngweithio â'r amgylchedd dŵr ac felly mae'n hanfodol bod rheoliadau priodol yn diwallu anghenion y cyhoedd a'r rhai sy'n ymwneud â rheoli safleoedd dŵr ymdrochi. Mae'r diwygiadau hyn yn rhan o gorff ehangach o waith sy'n cael ei wneud gan Lywodraethau'r DU a Chymru i wella ansawdd dŵr.

**Beth yw Dŵr Ymdrochi?**

Gellir dynodi dyfroedd arfordirol a mewndirol poblogaidd sy'n denu nifer fawr o ymdrochwyr yn ddyfroedd ymdrochi dan y Rheoliadau.

Mae dynodi safle'n ddŵr ymdrochi yn golygu y bydd y safle'n destun rhaglen o fonitro ansawdd dŵr gan 'asiantaethau priodol' – Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr, a Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru. Mae eu ffocws ar gydweithio â phartneriaid gan gynnwys awdurdodau lleol, cwmnïau dŵr a thirfeddianwyr lleol i ganfod unrhyw ffynonellau llygredd a rhoi camau ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan greu manteision cymdeithasol, economaidd, hamdden ac iechyd.

O dan y Rheoliadau presennol, mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn monitro ansawdd y dŵr mewn safleoedd dŵr ymdrochi dynodedig drwy gydol y tymor ymdrochi, sy'n rhedeg rhwng 15 Mai a 30 Medi yng Nghymru a Lloegr. Mae dŵr yn cael ei samplu a'i brofi ar gyfer enterococci coluddol ac *Escherichia coli (E. coli)* a allai fod yn niweidiol i ymdrochwyr.

Yn unol â'r Rheoliadau presennol, mae dyfroedd ymdrochi yn cael eu dosbarthu fel rhai 'rhagorol', 'da', 'digonol' neu 'gwael', yn seiliedig ar asesiad Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru o lefel y bacteria (enterococci coluddol ac *Escherichia coli)* yn y dŵr dros y cyfnod treigl pedair blynedd blaenorol. Dan y rheoliadau presennol, os yw safle dŵr ymdrochi yn cael dosbarthiad 'gwael' am bum mlynedd yn olynol, mae'n cael ei ddad-ddynodi'n awtomatig, a rhaid i awdurdodau lleol roi cyngor parhaol yn erbyn ymdrochi.

Mae dynodiad, monitro a gweithredu cydlynol effeithiol wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd dŵr mewn safleoedd a ddefnyddir gan y cyhoedd ledled y wlad. Yn ystod tymor 2023, roedd 96% o'r dyfroedd ymdrochi yn Lloegr yn bodloni'r safonau gofynnol, gyda 90% yn cael eu dosbarthu fel 'da' neu 'ardderchog', o'i gymharu â 45.7% yn 1995, er bod y meini prawf dosbarthu wedi dod yn fwy llym yn 2015. Yng Nghymru, roedd 98% o'r dyfroedd ymdrochi yn cyrraedd safonau ansawdd dŵr ymdrochi yn 2023, gyda 92% yn cael eu dosbarthu yn 'dda' neu'n 'ardderchog'.

Dan y Rheoliadau, rhaid i'r awdurdod lleol arddangos gwybodaeth gyhoeddus am ansawdd dŵr a ffynonellau llygredd mewn dyfroedd ymdrochi dynodedig yn ystod y tymor ymdrochi. Mae’r wybodaeth sy’n cael ei harddangos yn cael ei darparu i’r awdurdod gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Yr Achos dros Newid**

Mae’r Llywodraeth hon wedi etifeddu system ddŵr sydd wedi torri: methiannau dro ar ôl tro i gwsmeriaid a lefelau uwch nag erioed o garthion yn llygru ein hafonydd, ein llynnoedd a’n moroedd. Ni ddylai hyn ddigwydd byth eto. Un o’r blaenoriaethau pwysicaf yw diwygio diwylliant y sector dŵr yn sylfaenol, fel bod cwsmeriaid a’r amgylchedd yn cael eu rhoi wrth galon popeth y mae cwmnïau dŵr yn ei wneud. Ni ddylid erioed fod wedi caniatáu'r dinistr annerbyniol hwn ar ein dyfrffyrdd, ond mae newid wedi dechrau erbyn hyn fel na all ddigwydd byth eto. Ni all y newid hwn ddigwydd dros nos, ond mae’r llywodraeth hon wedi ymrwymo i gymryd camau pellach i ddiwygio’r sector dŵr ac adfer ein hafonydd, ein llynnoedd a’n moroedd i iechyd da.

Mae’r rhan fwyaf o’r 560 o ddyfroedd ymdrochi a ddynodwyd dan y Rheoliadau yng Nghymru a Lloegr yn safleoedd ar draethau poblogaidd sy’n denu niferoedd mawr o ymdrochwyr. Rydym yn cydnabod bod newidiadau wedi bod o ran sut a ble mae’r cyhoedd yn defnyddio dyfroedd ymdrochi dros y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, bu cynnydd yn nifer y dyfroedd mewndirol (afonydd a llynnoedd) sydd wedi’u dynodi yn ogystal â chynnydd nodedig yn niddordeb y cyhoedd mewn dyfroedd ymdrochi, yn rhannol oherwydd y cynnydd ym mhoblogrwydd nofio gwyllt a chwaraeon a gweithgareddau hamdden eraill sy’n seiliedig ar ddŵr. Mae llawer o randdeiliaid wedi galw am ddiweddaru’r Rheoliadau i adlewyrchu’r ffyrdd modern y mae’r cyhoedd yn defnyddio dyfroedd ymdrochi er mwyn iddynt barhau i gefnogi canlyniadau iechyd y cyhoedd. Mae’r llywodraeth hon wedi gwrando ar eu pryderon.

Mae diffyg hyblygrwydd i deilwra gofynion monitro i ddiwallu anghenion lleol yn her sy’n cyfyngu ar weithgareddau Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru drwy gydol y Rheoliadau. Bydd gwneud y Rheoliadau’n fwy hyblyg ac addasol i amgylchiadau sy’n benodol i’r safle ac i amgylchiadau lleol yn caniatáu’r ddarpariaeth orau i’r cyhoedd ac yn helpu i ddiogelu’r system ymhellach at y dyfodol. Bydd diweddaru’r gofynion technegol yn y Rheoliadau hefyd yn helpu i foderneiddio’r arferion presennol.

Er mwyn ymateb i’r heriau hyn, rydym wedi datblygu pecyn o ddiwygiadau a chynigion. Mae’r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn y cyhoedd er mwyn penderfynu a ddylai’r diwygiadau hyn symud ymlaen i graffu deddfwriaethol.

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Mae cwestiynau'r ymgynghoriad sy'n ymwneud â phob diwygiad arfaethedig i'w gweld gydol y ddogfen ymgynghori. Mae cwestiynau 1-8 ('Gwybodaeth Amdanoch Chi') yn ymdrin â gwybodaeth a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer rheoli a phrosesu data. Dangosir y cwestiynau hyn ar ddiwedd y ddogfen hon. I gael rhagor o wybodaeth am sut y bydd gwybodaeth bersonol a gwybodaeth adnabyddadwy yn cael ei defnyddio fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, gweler hysbysiad preifatrwydd y rhaglen.

**Cwestiynau ymgynghori 'Gwybodaeth amdanoch chi'**

**C1.** Ydych chi am i'ch ymateb fod yn gyfrinachol?
*(gofynnol)*
- Ydw
- Nac ydw

**C2.** Os ydw oedd eich ateb, pa wybodaeth hoffech chi ei chadw'n gyfrinachol a pham?
*(dim angen) Teipiwch isod*

**C3.** Rhowch eich enw llawn, os gwelwch yn dda. Os ydych chi'n cynrychioli sefydliad neu grŵp, gofynnir i chi am ei enw yn nes ymlaen.
*(gofynnol) Teipiwch isod*

**C4.** Rhowch eich cyfeiriad e-bost
*(gofynnol)*
*Teipiwch isod*

**C5.** Ym mha swyddogaeth ydych chi'n llenwi'r ymgynghoriad hwn?
*(gofynnol)*

- Fel tirfeddiannwr preifat gyda dyfroedd ymdrochi a dyfroedd ymdrochi posibl ar ei dir
- Fel ffermwr neu reolwr tir y gallai ei dir effeithio ar ansawdd dŵr ymdrochi lleol
- Fel cynrychiolydd cwmni dŵr
- Fel busnes y gallai newid rheoliadau dŵr ymdrochi effeithio arno
- Fel awdurdod lleol
- Fel Corff Anllywodraethol neu grŵp di-elw arall er budd y cyhoedd
- Fel aelod o'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn dyfroedd ymdrochi
- Fel cynrychiolydd cyhoeddus (*er enghraifft,* Cynghorydd, AS, ac ati)

**C6.** [Os atebwyd TIRFEDDIANWYR, CWMNI DŴR, BUSNES, AWDURDOD LLEOL neu GORFF ANLLYWODRAETHOL yn C5] Beth yw enw'r sefydliad neu'r grŵp â

diddordeb yr ydych yn ymateb ar ei ran?
*Teipiwch isod (gofynnol)*

- Blwch Testun Agored

**C7**. Ble ydych chi wedi eich lleoli ar hyn o bryd?
*(gofynnol)*

- Lloegr
- Yr Alban
- Cymru
- Gogledd Iwerddon
- Y tu allan i'r DU, o fewn yr UE
- Y tu allan i'r DU, y tu allan i'r UE

**C8**. [Os atebwyd TIRFEDDIANWYR, CWMNI DŴR, BUSNES, AWDURDOD LLEOL neu GORFF ANLLYWODRAETHOL yn C5] Ble mae eich busnes neu sefydliad yn gweithredu? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)
*(gofynnol)*

- Lloegr
- Yr Alban
- Cymru
- Gogledd Iwerddon
- Ddim yn berthnasol

## Diwygiadau Arfaethedig

Er mwyn bodloni'r diffygion a nodwyd yn y Rheoliadau presennol, rydym yn cynnig tri diwygiad craidd sylweddol a fydd yn gwneud y canlynol:

1. Dileu'r ddarpariaeth dad-ddynodi awtomatig o'r Rheoliadau.
2. Diwygio'r Rheoliadau i gynnwys y posibilrwydd o wella ansawdd dŵr safle i o leiaf safon 'digonol' fel maen prawf ar gyfer dynodiad terfynol.
3. Cael gwared â dyddiadau penodol y tymor ymdrochi sy'n cael ei fonitro o'r Rheoliadau.

Mae'r adran hon yn nodi'r cyfiawnhad a'r manteision a nodwyd o ran pob diwygiad yn ogystal ag opsiynau polisi eraill a ystyriwyd, a gwybodaeth ehangach sydd wedi llywio'r broses o wneud penderfyniadau.

**Diwygiad 1- Dileu'r ddarpariaeth dad-ddynodi awtomatig o'r Rheoliadau.**

**Beth fydd yn newid?**

Byddai'r diwygiad hwn yn gwneud y canlynol:

- Dileu'r ddarpariaeth dad-ddynodi awtomatig o'r Rheoliadau (rheoliad 13(2)(a)).

- Gweithredu darpariaeth newydd sy’n ei gwneud yn ofynnol i Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru adolygu a yw’n ymarferol ac yn gymesur (ar sail cost a’r gallu i gyflawni) i wella ansawdd y dŵr i safon ‘digonol’ mewn unrhyw ddŵr ymdrochi dynodedig sydd wedi cael ei ddosbarthu fel ‘gwael’ am bum mlynedd yn olynol.
- Ei gwneud yn ofynnol i Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru wneud argymhelliad i Defra neu Lywodraeth Cymru pan fydd safle’n cael ei ddosbarthu’n ‘wael’ am bum mlynedd yn olynol ynghylch a ddylid rhoi mwy o amser i’r safle wella neu, yn lle hynny, ei ddad-ddynodi, gyda’r penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan Defra neu weinidogion Llywodraeth Cymru.
- Nodi sut y bydd y broses adolygu yn gweithio a pha dystiolaeth fydd yn cael ei hystyried. Defnyddio canllawiau anstatudol Defra neu Lywodraeth Cymru ar ddad-ddynodi a gyhoeddir ac a fydd ar gael i’r cyhoedd ar GOV.UK neu LLYW.CYMRU ar ôl diwygio’r Rheoliadau.

**Pam fod angen y diwygiad hwn?**

Dan y Rheoliadau presennol, mae dyfroedd ymdrochi yn cael eu dad-ddynodi’n awtomatig os ydynt yn cael eu dosbarthu fel rhai ‘gwael’ am bum mlynedd yn olynol. Un o nodau arfaethedig y ddarpariaeth hon yw cymell gwelliannau cyflym mewn safleoedd dŵr ymdrochi drwy ddarparu dyddiad cau i randdeiliaid lleol fuddsoddi mewn gwella ansawdd dŵr. Gallai dad-ddynodi a’r cyngor sy’n deillio o hynny yn erbyn ymdrochi mewn safleoedd achosi niwed i ddiwydiannau twristiaeth a hamdden lleol, llai o gyfleoedd dŵr hamdden, methu targedau amgylcheddol wrth i ffocws symud o wella dŵr ymdrochi a cholled amwynder cyhoeddus lleol. O’r herwydd, dylid ystyried dad-ddynodi fel dewis olaf, er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd mewn sefyllfaoedd lle nad yw gwella ansawdd dŵr yn ymarferol nac yn gymesur.

Pan fydd dŵr ymdrochi yn cael ei ddosbarthu fel ‘gwael’ i ddechrau, mae ymchwiliad yn cael ei sbarduno a bydd Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru yn dechrau proses o ganfod ffynonellau llygredd ac yn cydlynu rhanddeiliaid lleol i ymateb. Gall yr ymchwiliadau hyn gynnwys profi dangosyddion sy’n gysylltiedig â gwahanol ffynonellau, ymweliadau ar y safle ac archwiliadau o seilwaith lleol i bennu tarddiad(au) llygryddion. Mewn safleoedd lle nad yw seilwaith carthffosiaeth yn debygol o fod yn gyfraniad sylweddol, mae angen asesu ffynonellau tebygol eraill, a allai gynnwys modelu defnydd tir o amgylch safle. Gall y modelu hwn fod yn broses hir a drud. Unwaith y bydd ffynonellau wedi’u nodi, bydd Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi gwybod i’r rheolwyr am y ffynonellau llygryddion ac yn eu cyfarwyddo i wneud y gwelliannau neu’r addasiadau gofynnol neu i adeiladu asedau

newydd i atal llygredd. Yn yr un modd, gall y cynllunio, y buddsoddiadau a'r gwaith angenrheidiol fod yn broses hir.

Ar ben hynny, mae rhanddeiliaid fel cwmnïau dŵr yn aml yn rheoli'r gwaith o gynllunio buddsoddiadau seilwaith mewn cylchoedd aml-flwyddyn. Er enghraifft, mae cwmnïau dŵr yn defnyddio Adolygiad Prisiau a Chyfnod Rheoli Asedau (AMP) o bum mlynedd ar gyfer cynllunio adnoddau strategol a chyllidebu. Felly, efallai y bydd yr angen am fuddsoddiad i wella safle i fod yn 'ddigonol', fel y nodir gan Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru, yn cyd-fynd yn wael â chylchoedd cyllido'r cwmnïau dŵr, sy'n gallu achosi heriau gyda chynllunio ac arafu buddsoddiad yn sylweddol mewn achosion lle mae dynodiadau terfynol yn cael eu gwneud yng nghanol y cylch.

Mae hyn yn golygu, er gwaethaf y systemau presennol i sicrhau bod buddsoddiad yn digwydd, yn aml nid yw pum mlynedd yn ddigon hir i ansawdd dŵr mewn safleoedd gael ei ddeall a'i wella i ddosbarthiad 'digonol'. Ar ôl dad-ddynodi, nid yw Asiantaeth yr Amgylchedd na Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn gallu cyfarwyddo rhanddeiliaid lleol i weithredu dan y Rheoliadau, gan arwain at gostau suddedig, gwerth gwael am arian a chanlyniadau gwael o ran gwella ansawdd dŵr.

Roedd Defra a Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'n briodol ymestyn y cyfnod olynol cyn y byddai dŵr ymdrochi a ddosbarthwyd yn 'wael' yn cael ei ddad-ddynodi. Fodd bynnag, byddai defnyddio terfyn sy'n addas i bawb ar gyfer pob cyd-destun yn dal i olygu na fyddai rhai safleoedd yn gallu gwella'n ymarferol, hyd yn oed o fewn cyfnod estynedig. Mewn achosion o'r fath, gall cynyddu'r cyfnod amser i gyfnod penodol cyn dad- ddynodi yn awtomatig arwain at gostau suddedig uwch i randdeiliaid lleol a gwerth is am arian. Am y rheswm hwn, mae dileu'r ddarpariaeth dad-ddynodi a chaniatáu model mwy hyblyg sy'n ystyried safleoedd fesul achos yn ddull tecach a mwy cytbwys.

Nid yw'r diwygiad hwn wedi'i lunio i ganiatáu i safleoedd dŵr ymdrochi aros yn y categori 'gwael' am gyfnod amhenodol. Mae'n flaenoriaeth i bob parti bod safleoedd sy'n cael eu dosbarthu fel rhai 'gwael' yn cael eu gwella i safon 'digonol' neu well i ddiogelu iechyd ymdrochwyr. Mae'r diwygiad hwn, yn syml iawn, yn caniatáu amser ychwanegol i ddyfroedd ymdrochi gyrraedd safon 'digonol'. Dan y diwygiad hwn, byddai Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal adolygiad o safleoedd sy'n cael eu dosbarthu fel rhai 'gwael' o bryd i'w gilydd, yn ogystal â gwaith monitro rheolaidd, i asesu cynnydd tuag at wella ansawdd dŵr. Drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol fel yr awdurdodau lleol, tirfeddianwyr a chwmnïau dŵr, gan ddefnyddio tystiolaeth sydd eisoes ar gael a chynhyrchu tystiolaeth newydd lle bo angen, byddai Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru yn asesu costau a gallu cyflawni'r safle gan gyrraedd safon 'digonol' dŵr ymdrochi ac a yw hyn yn ymarferol neu'n gymesur i'w gyflawni. Mewn achosion lle'r asesir nad yw'n ymarferol nac yn gymesur i wneud gwelliannau, byddai Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru yn argymell

bod safleoedd yn cael eu dad-ddynodi. Mae hyn yn lleihau'r risg o niwed i'r economi leol drwy ddad-ddynodi cyn pryd, ac yn annog rhanddeiliaid lleol i wneud y buddsoddiadau sydd eu hangen i wella ansawdd dŵr.

Mae'r diwygiad arfaethedig hwn yn cyflwyno rhai risgiau, ar ffurf costau ychwanegol i awdurdodau perthnasol i fonitro dyfroedd ymdrochi 'gwael' ychwanegol. Efallai y bydd niwed hefyd i'r sectorau hamdden a thwristiaeth lleol drwy ymestyn oes dynodi dyfroedd ymdrochi 'gwael', a'r potensial i beri i'r cyhoedd ymdrochi mewn ardaloedd lle mae ansawdd y dŵr yn wael am gyfnodau hwy.

Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi prosesau manwl a chanllawiau cyhoeddus ar sut y bydd safleoedd yn cael eu hasesu, gan gynnwys meini prawf asesu, trothwyon cost a budd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ac awdurdodau lleol. Defra a gweinidogion Llywodraeth Cymru fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid dad-ddynodi safle fel dŵr ymdrochi.

Bydd canllawiau a fydd yn cael eu cyhoeddi yn nodi dan ba amodau y gellir ystyried ail-ymgeisio.

### Cwestiynau Gwerthuso

**C9.** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gael gwared â dad-ddynodi awtomatig o Reoliadau Dŵr Ymdrochi 2013 ar gyfer Cymru a Lloegr?

*(gofynnol)*

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

**Q10.** Rhowch resymau am eich ateb.

### Diwygiad 2 - Diwygio'r Rheoliadau i gynnwys y posibilrwydd o wella ansawdd dŵr safle i o leiaf safon 'digonol' fel maen prawf ar gyfer dynodiad terfynol

### Beth fydd yn newid?

Byddai'r diwygiad hwn yn gwneud y canlynol:

- Diwygio'r Rheoliadau fel bod y posibilrwydd o wella safle i fod yn ddŵr ymdrochi o safon 'digonol' o leiaf (ar sail cost a'r gallu i gyflawni) yn dod yn faen prawf y gellir ei ystyried lle bo angen cyn penderfynu a ddylid dynodi'r safle'n llawn fel dŵr ymdrochi newydd.
- Caniatáu i ddiogelwch corfforol a mesurau diogelu amgylcheddol gael eu hystyried cyn dynodi'n derfynol.
- Nodi sut y bydd yr asesiad dichonoldeb hwn yn gweithio a pha dystiolaeth fydd yn cael ei hystyried mewn canllawiau anstatudol gan Defra a Llywodraeth Cymru ar y broses dynodi dŵr ymdrochi a gyhoeddir ac a fydd ar gael i'r cyhoedd ar GOV.UK a LLYW.CYMRU ar ôl i'r Rheoliadau gael eu diwygio.

**Pam fod angen y diwygiad hwn?**

Dan y rheoliadau presennol, er mwyn i safle gael ei ddynodi'n ddŵr ymdrochi newydd, rhaid iddo fodloni'r gofyniad sylfaenol sef:

- Bod yn ddŵr arfordirol neu fewndirol (nad yw'n bwll nofio, sba, dŵr caeedig sy'n cael ei drin neu ei ddefnyddio ar gyfer therapi neu ddŵr caeedig sydd wedi'i greu'n artiffisial ac sydd wedi'i wahanu oddi wrth ddŵr wyneb neu ddŵr daear).
- Bod â nifer fawr o ymdrochwyr, a nodir yn Lloegr fel o leiaf 100 o ymdrochwyr y dydd, yn ystod y tymor ymdrochi (15 Mai i 30 Medi). (Canllawiau yn unig)
- Yn Lloegr, rhaid i safleoedd hefyd fod â chyfleusterau toiledau y gall ymdrochwyr eu defnyddio yn ystod y tymor ymdrochi, o fewn 500m i'r safle. (Canllawiau yn unig)

Bod gwybodaeth arall, gan gynnwys caniatâd tir lleol, caniatâd gan awdurdodau lleol, a gwybodaeth am seilwaith a chyfleusterau ehangach i hyrwyddo ymdrochi (er enghraifft, parcio, hygyrchedd ac achubwyr bywyd) hefyd yn cael ei chasglu fel rhan o'r broses o wneud cais am ddynodiad er mwyn helpu i wneud penderfyniadau. Yng Nghymru ar hyn o bryd, yr *unig* ystyriaeth a roddir mewn cyngor i ddŵr ymdrochi posibl yw niferoedd ymdrochwyr.

Ar hyn o bryd nid yw'r Rheoliadau'n caniatáu ystyried ansawdd dŵr presennol, diogelwch corfforol i'r cyhoedd, amddiffyniadau amgylcheddol a'r costau sy'n gysylltiedig â gwella ansawdd dŵr i safon 'digonol' dŵr ymdrochi. Mae hyn yn golygu bod safleoedd yn cael eu dynodi heb ddarlun clir o'r costau, y gallu a'r manteision tebygol o wella ansawdd y dŵr i safon dŵr ymdrochi, ac a fyddai'n ymarferol neu'n gymesur ceisio gwneud hynny. Yn unol â'r Rheoliadau, mae dyletswydd ar Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru i geisio cydlynu camau buddsoddi lleol i wella ansawdd dŵr i safon 'digonol' dŵr ymdrochi yn dilyn dynodiadau terfynol lle mae

ansawdd y dŵr yn wael. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol hyd yn oed pan nad yw'n glir a fydd buddsoddiad yn arwain at welliannau sylweddol i ansawdd dŵr.

Rydym yn cynnig lliniaru'r risgiau hyn drwy ddiwygio'r Rheoliadau fel bod diogelwch corfforol, amddiffyniadau amgylcheddol a'r posibilrwydd o wella ansawdd dŵr safle dŵr ymdrochi i safon 'digonol' o leiaf (ar sail cost a'r gallu i gyflawni), yn dod yn faen prawf y gellir ei ystyried pan ystyrir bod angen. Byddai hyn cyn gwneud penderfyniad dynodi terfynol. Wrth wneud hynny, byddwn yn osgoi defnydd gwael o adnoddau'n gynnar, gan ganiatáu buddsoddiad mwy strategol mewn safleoedd lle gellir sicrhau gwerth am arian. Bydd y diwygiad hwn yn rhoi dealltwriaeth o ansawdd dŵr cyn y dynodiad terfynol y gellir ei ddefnyddio i roi gwybod i'r cyhoedd am risgiau iechyd. Efallai y bydd hefyd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i randdeiliaid lleol am ffynonellau llygredd tebygol o'r dechrau.

Fel rhan o'r broses cynllunio polisi, ystyriodd Defra a Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Rheoliadau fel ei bod yn ofynnol i safleoedd dŵr ymdrochi arfaethedig fod ag ansawdd dŵr 'digonol' o leiaf cyn eu dynodi'n derfynol. Fodd bynnag, byddai hyn yn arwain at lai o safleoedd dynodedig, yn enwedig lleoliadau afonydd lle mae ansawdd y dŵr fel arfer yn waeth nag ardaloedd arfordirol oherwydd effaith gynyddol ffynonellau llygryddion i fyny'r afon a llai o gyfle i wasgaru llygryddion. Nid ydym yn bwriadu cyfyngu dynodiad i safleoedd sydd eisoes yn 'ddigonol' neu uwch, ond i sicrhau bod safleoedd 'gwael' ddim ond yn cael eu dynodi'n llawn lle mae'n ymarferol ac yn gymesur gwella ansawdd y dŵr i safonau 'digonol'. Mae'r diwygiad yn ceisio osgoi costau suddedig a gwerth gwael am arian mewn achosion lle nad yw gwelliannau'n ymarferol nac yn gymesur. Bydd iechyd y cyhoedd hefyd yn cael ei ddiogelu drwy beidio â dynodi dyfroedd ymdrochi na ellir eu codi i ansawdd dŵr 'digonol' o leiaf, a chael gwared ar ymdeimlad ffug o sicrwydd i ddefnyddwyr dŵr ynghylch diogelwch ymdrochi mewn safleoedd dŵr ymdrochi dynodedig. Fodd bynnag, fel y mae pethau ar hyn o bryd, efallai na fydd cyngor iechyd y cyhoedd yn cael ei ddarparu ar gyfer safleoedd ymdrochi heb eu dynodi sydd ag ansawdd dŵr gwael.

Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi prosesau manwl a chanllawiau cyhoeddus ar sut y bydd safleoedd yn cael eu hasesu, gan gynnwys meini prawf asesu a throthwyon cost a budd. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol fel awdurdodau lleol, tirfeddianwyr a chwmnïau dŵr, fel sy'n digwydd eisoes yn y broses ymgeisio cyn dynodiad. Mae'n debygol y byddai angen cynnwys rhai o'r elfennau canlynol, pan ystyrir eu bod yn briodol, yn y broses er mwyn galluogi Defra a Llywodraeth Cymru i benderfynu a fyddai'r costau, y gallu i gyflawni a'r manteision tebygol yn cyfiawnhau dynodi'r safle'n ddŵr ymdrochi:

- Cam brysbennu cychwynnol lle mae ceisiadau'n cael eu hasesu gan ddefnyddio dadansoddiad desg a data samplu hanesyddol/presennol/ cychwynnol

cyfyngedig i fesur eu potensial i sicrhau cydymffurfiaeth â safon 'digonol' dŵr ymdrochi a chanfod achosion sy'n debygol iawn o gyrraedd safon 'digonol' neu uwch. Bydd y safleoedd hyn yn cael eu hystyried ar gyfer eu dynodi'n derfynol.

- Ar gyfer safleoedd y nodir nad ydynt yn debygol o gyrraedd safon 'digonol' neu uwch, gall monitro ansawdd dŵr ar y safle ddigwydd am o leiaf un tymor i asesu ansawdd ac amrywiadau'r dŵr.
- Ar ôl casglu data samplu, bydd safleoedd sy'n bodloni safon 'digonol' dŵr ymdrochi yn cael eu hystyried ar gyfer eu dynodi'n derfynol.
- Ar gyfer safleoedd nad ydynt yn cyrraedd y safon ofynnol, gellid amcangyfrif y bwlch rhyngddynt a chydymffurfio. Byddai'r data hyn wedyn yn cael eu defnyddio fel mewnbwn i asesiad cost a budd i bennu pa mor addas yw dynodi'n derfynol.
- Byddai ymgeiswyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ar adegau y cytunwyd arnynt gydol y broses hon.

Bydd Defra a Llywodraeth Cymru, ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru, hefyd yn cyhoeddi canllawiau sy'n rhoi manylion dulliau cyfathrebu cyhoeddus mewn achosion lle nad yw safleoedd posibl yn cael eu dynodi ar sail y posibilrwydd o wella. Gall hyn gynnwys awdurdodau lleol yn gosod arwyddion parhaol ar safleoedd yn ogystal â chyngor iechyd cyhoeddus ar-lein. Fel y sefyllfa ar hyn o bryd, Defra a gweinidogion Llywodraeth Cymru fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ellir dynodi safle yn ddŵr ymdrochi. Ni ellir apelio yn erbyn penderfyniadau. Bydd canllawiau a fydd yn cael eu cyhoeddi yn nodi dan ba amodau y gellir ystyried ail-ymgeisio.

Mae'r diwygiad hwn yn cyflwyno risgiau ariannol ar ffurf datgymell rhag buddsoddi mewn safleoedd sydd ag ansawdd dŵr gwael, gan leihau'r tebygolrwydd y byddant yn gwella. Gallai'r diffyg dynodiad ar gyfer rhai safleoedd hefyd olygu llai o gyllid i ddiogelu'r amgylchedd naturiol o amgylch safleoedd. Ar ben hynny, efallai y bydd costau i awdurdodau perthnasol i wneud gwaith monitro ac asesu ychwanegol ar safleoedd cyn dynodi.

Fodd bynnag, bydd y diwygiad hwn yn caniatáu defnydd mwy strategol o adnoddau lleol a chenedlaethol drwy osgoi costau suddedig a gwerth gwael am arian. Mae hyn hefyd yn diogelu iechyd y cyhoedd, drwy beidio â dynodi safleoedd na ellir eu gwella i safonau 'digonol' o leiaf. Drwy ystyried amddiffyniadau amgylcheddol a diogelwch corfforol hefyd, gellir blaenoriaethu buddsoddiadau tuag at safleoedd lle mae'n ymarferol ac yn gymesur i ansawdd dŵr gyrraedd safon 'digonol' dŵr ymdrochi neu uwch, gan greu'r gwerth a'r sicrwydd mwyaf i randdeiliaid lleol a defnyddwyr dŵr.

**Cwestiynau Gwerthuso**

**C11.** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai ansawdd dŵr, y posibilrwydd o wella ansawdd dŵr i safon 'digonol', diogelwch corfforol a gwarchodaeth amgylcheddol gael ei ystyried cyn penderfynu a ddylid dynodi safle yn ddŵr ymdrochi o dan Reoliadau Dŵr Ymdrochi 2013 ar gyfer Cymru a Lloegr?

*(gofynnol)*

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

**C12**. Rhowch resymau am eich ateb.

**Q13.** Sut dylid hysbysu'r cyhoedd bod safle wedi cael ei ystyried fel dŵr ymdrochi ond nad yw wedi'i ddynodi ar y sail nad os posibilrwydd o wella ansawdd y dŵr i safon 'digonol'?

*(gofynnol) - [cewch ddewis mwy nag un]*

- Arwyddion ar y safle
- Hysbysiad ar wefan Swimfo yn Lloegr neu wefan Bathing Waters Explorer yng Nghymru.
- Hysbysiad ar GOV.UK neu LLYW.CYMRU
- Hysbysiad ar wefan dŵr ymdrochi Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru
- Dim hysbysiad ychwanegol

- Arall (rhowch fanylion)

**Diwygiad 3 - Cael gwared â dyddiadau penodol y tymor ymdrochi sy'n cael ei fonitro o'r Rheoliadau**

**Beth fydd yn newid?**

Byddai'r diwygiad hwn yn gwneud y canlynol:

- Cael gwared â dyddiadau penodol y tymor ymdrochi sy'n cael ei fonitro o'r rheoliadau (rheoliad 4).
- Yn lle hynny, byddai'r tymor monitro yn cael ei bennu mewn canllawiau anstatudol gan Defra a Llywodraeth Cymru ar ddŵr ymdrochi a gyhoeddir ac a fydd ar gael i'r cyhoedd ar GOV.UK a LLYW.CYMRU ar ôl i'r Rheoliadau gael eu diwygio.

**Pam fod angen y diwygiad hwn?**

Mae dyddiadau'r tymor ymdrochi sy'n cael ei fonitro, sef rhwng 15 Mai a 30 Medi, wedi'u nodi yn y Rheoliadau ar hyn o bryd. Mae'r tymor yn cynrychioli'r adeg o'r flwyddyn pan fydd y mwyafrif helaeth o'r ymdrochi'n digwydd. Mae hwn yn ddull un ateb i bawb sy'n addas i lawer o gyd-destunau lleol ond nid pob un ohonynt. Yn ymarferol, mae amrywiadau rhanbarthol o ran y tywydd, yr hinsawdd a daearyddiaeth y safle yn arwain at gyfnodau ychydig yn fyrrach neu'n hirach lle byddai dŵr ymdrochi yn cael ei ddefnyddio'n helaeth iawn neu lle byddai ymdrochi'n cael ei gynghori. Ar hyn o bryd, gan fod dyddiadau'r tymor wedi'u rhagnodi yn y gyfraith, mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u gwahardd rhag addasu eu harferion monitro ar sail yr amodau hyn, sy'n benodol i safleoedd.

Rydym yn cynnig dileu dyddiadau penodol y tymor ymdrochi sy'n cael ei fonitro a mynnu bod Asiantaeth yr Amgylchedd/Cyfoeth Naturiol Cymru yn monitro yn ystod y cyfnodau prysuraf. Gellid darparu canllawiau anstatudol ar hyn. Bydd y canllawiau'n nodi y bydd pob dŵr ymdrochi yn cael ei fonitro gan Asiantaeth yr Amgylchedd/Cyfoeth Naturiol Cymru am gyfnod penodol o'r flwyddyn. Bydd y cyfnod monitro ar gyfer pob safle yn cael ei gyhoeddi er mwyn i'r cyhoedd allu gwneud dewisiadau gwybodus yn ystod cyfnodau brig a'r tu allan iddynt.

Byddai'r newid hwn yn alinio Cymru a Lloegr â'r Alban, lle mae dyddiadau'r tymor monitro wedi'u nodi mewn canllawiau. Fel sy'n wir yn yr Alban, mae'n debygol y byddai'r rhan fwyaf o safleoedd yn parhau i ddilyn dyddiadau presennol y tymor monitro.

Ni fydd y diwygiad hwn yn lleihau amlder y monitro mewn safleoedd dŵr ymdrochi dynodedig ond byddai'n newid nifer y samplau a ddefnyddir i wneud asesiad. Gan y bydd Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu mabwysiadu dull mwy hyblyg o fonitro, gallai wella gallu'r asiantaethau i gynllunio a chyflawni eu hamserlen monitro ar gyfer y safleoedd er mwyn diwallu anghenion lleol. Bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i reoli dyfroedd ymdrochi fesul safle, ac yn sicrhau y bydd yr wybodaeth am fonitro ac iechyd y cyhoedd ar gael ar adegau pan fydd ymdrochwyr yn defnyddio safleoedd. Mae hyn yn sicrhau defnydd mwy strategol o adnoddau a chronfeydd cyhoeddus.

Deellir bod nifer o ddarpar ddyfroedd ymdrochi lle byddai hyblygrwydd y rhaglen fonitro o fudd o ran cefnogi'r amgylchedd, y bywyd gwyllt a'r cynefinoedd lleol. Er enghraifft, mae safleoedd sydd wedi'u lleoli o fewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) yn cael gwarchodaeth o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Gallai creu tymor ymdrochi hyblyg ganiatáu i ddyfroedd ymdrochi newydd gael eu dynodi, gan sicrhau bod ein hamgylchedd yn ogystal ag iechyd pobl yn parhau i gael eu diogelu.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu diddordeb mawr ymysg y cyhoedd mewn ymestyn trefniadau monitro dŵr ymdrochi i gynnwys monitro drwy gydol y flwyddyn. Gwelwyd cynnydd ym mhoblogrwydd nofio mewn dŵr oer a nofio gwyllt, sy'n golygu bod dyfroedd ymdrochi'n aml yn cael eu defnyddio y tu allan i'r tymor presennol. Ystyriodd Defra a Llywodraeth Cymru a fyddai gosod monitro drwy gydol y flwyddyn ym mhob safle ymdrochi yn y Rheoliadau yn opsiwn polisi addas yn y cam hwn o'r diwygiadau.

Byddai cyflwyno monitro drwy gydol y flwyddyn yn golygu newid sylweddol i'r system ddosbarthu sy'n cael ei defnyddio gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru. Gall ansawdd dŵr a risgiau iechyd amrywio yn ystod y flwyddyn yn seiliedig ar ffactorau amgylcheddol tymhorol gan gynnwys glaw, gweithgarwch dynol o amgylch safle, ymddygiad tymhorol bywyd gwyllt, a phrosesau amaethyddol tymhorol. Mae'r system bresennol wedi cael ei llunio i roi gwybod i ddefnyddwyr am y risgiau tebygol i iechyd wrth ddefnyddio'r dŵr yn ystod y tymor ymdrochi presennol a bydd angen ei diwygio i adlewyrchu amrywiadau tymhorol. Bydd cymhlethdod ychwanegol hefyd gyda'r system ddosbarthu os bydd rhai safleoedd yn cael eu monitro drwy gydol y flwyddyn ond y bydd eraill, lle mae llai o ddefnydd y tu allan i fisoedd yr haf, yn parhau i gael eu monitro yn ystod y dyddiadau presennol.

Ar ben hynny, byddai monitro drwy gydol y flwyddyn yn golygu newid sylweddol i fodel cyflawni a gweithredu Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys ystyriaethau ychwanegol ynghylch pryd y mae'n ymarferol ac yn ddiogel i gymryd samplau. Byddai monitro drwy gydol y flwyddyn yn arwain at gynnydd yn adnoddau a chapasiti angenrheidiol Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru, ar gyfer casglu'r samplau a'u prosesu yn y labordy. Bydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer cynnydd o'r fath mewn adnoddau. Rhaid i ffactorau cyllido ac adnoddau gael eu hystyried yn llawn a'u cydbwyso cyn y gellir gwneud penderfyniad ar fynd ar drywydd monitro drwy gydol y flwyddyn fel opsiwn. Fodd bynnag, mae dileu dyddiadau penodol y tymor ymdrochi sy'n cael ei fonitro yn gosod y sylfeini ar gyfer monitro estynedig yn y dyfodol.

Rydym yn cydnabod y byddai unrhyw estyniad i'r tymor ymdrochi â goblygiadau o ran trwyddedau ar gyfer asedau cwmnïau dŵr. Er enghraifft, efallai y bydd angen diheintio

mewn gwaith trin dŵr gwastraff cyfagos am gyfnod hirach na'r hyn sydd ar waith ar hyn o bryd, yn ogystal â disgwyliadau ar fusnesau eraill a allai effeithio ar ansawdd dŵr ymdrochi y tu allan i'r tymor ymdrochi presennol. Bydd angen ystyried y goblygiadau hyn yn llawn cyn i dymor ymdrochi ar safle penodol gael ei ymestyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Ffermio a Materion Gwledig neu Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn dibynnu ar y lleoliad.

### Cwestiynau Gwerthuso

**C14.** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gynyddu hyblygrwydd dyddiadau'r Tymor Ymdrochi a ragnodir yn Rheoliadau Dŵr Ymdrochi 2013 ar gyfer Cymru a Lloegr?

*(gofynnol)*

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

**C15.** Rhowch resymau am eich ateb.

## Diwygiadau Technegol

Yn eu ffurf bresennol, mae'r Rheoliadau'n cynnwys nifer o ofynion nad ydynt yn cyd-fynd â dulliau arferion gorau o ran monitro a gweithrediadau a gyflawnir gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r rhain yn cynrychioli dulliau hen ffasiwn nad oes eu hangen mwyach, neu arferion sy'n defnyddio adnoddau gwerthfawr heb gyfrannu at ddosbarthu, adrodd na dealltwriaeth y cyhoedd o'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio dyfroedd ymdrochi.

Rydym yn ceisio diwygio'r gofynion hyn i wella'r defnydd o adnoddau a gwerth am arian yn rhaglenni monitro Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae Tabl 1 yn rhoi manylion y diwygiadau arfaethedig a'r rhesymeg briodol.

Tabl 1: Diwygiadau technegol arfaethedig i Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013

| Diwygiad technegol arfaethedig | Rhesymeg dros ddiwygio |
|---|---|
| 1. Bod ag ardal diffiniedig ar gyfer pob dŵr ymdrochi | Ar hyn o bryd, mae'r dyfroedd a ddefnyddir gan aelodau o'r cyhoedd mewn ardaloedd sydd wedi'u diffinio'n fras, er enghraifft yr ardal sy'n ffinio â thraeth, neu ran hygyrch o afon.<br><br>Byddai'r diwygiad hwn yn diweddaru'r Rheoliadau i gyfateb i'r realiti hwn ac yn rhoi dealltwriaeth gyson i'r holl randdeiliaid. Byddai hyn hefyd yn rhoi dealltwriaeth gliriach o ba rannau o'r dŵr sy'n cael eu defnyddio i gefnogi penderfyniadau ynghylch gwelliannau seilwaith a allai fod yn angenrheidiol, gan gynnwys drwy'r Cynllun Rheoli Asedau (AMP). |
| 2. Dileu'r gofyniad i gymryd sampl i ddod â digwyddiadau llygredd tymor byr (STP) i ben | Mae digwyddiad llygredd tymor byr (STP) yn ddigwyddiad lle mae safle dŵr ymdrochi yn cael ei lygru gan ffynhonnell hysbys a lle y disgwylir i'r llygru effeithio ar ansawdd y dŵr ymdrochi am ddim mwy nag oddeutu 72 awr. Yn ystod STP, rhoddir rhybuddion risg llygredd ac arddangosir cyngor yn erbyn ymdrochi.<br><br>Dan y rheoliadau presennol, mae'n ofynnol i Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru gymryd sampl dŵr ychwanegol a'i brofi i ddod â STP i ben.<br><br>Mae angen tua 2-4 diwrnod i brosesu samplau. Gwyddys bod ansawdd bacterol dŵr yn amrywio'n fawr, hyd yn oed dros ddiwrnod, gan wneud un sampl yn anghynrychioliadol o'r ystod o amrywiadau ansawdd dros ddiwrnod neu ddigwyddiad STP. Ar ben hynny, gan nad yw'r Cynlluniau yn para mwy nag oddeutu 72 awr, ni fydd ansawdd y dŵr ar adeg y samplu yn cyfateb i'r hyn sy'n bodoli ar yr adeg y cynhyrchir y canlyniadau. Mae hyn yn golygu nad yw sampl a gymerir ar ôl neu yn ystod STP yn darparu data defnyddiol ynghylch a yw digwyddiad STP wedi dod i ben oherwydd erbyn i'r canlyniadau fod ar gael, bydd yr ansawdd wedi newid. |
| 3. Cael gwared â'r terfyn amser o 7 diwrnod lle mae'n rhaid cymryd sampl newydd dan STP | Dan y Rheoliadau presennol, rhaid i Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru gymryd sampl i gymryd lle samplau rheolaidd a gymerir yn ystod STP fel nad yw'r nifer gofynnol o samplau o'r safle yn disgyn islaw'r safon ofynnol. Rhaid cymryd y sampl hwn 7 diwrnod ar ôl y sampl a gymerwyd yn ystod yr STP.<br><br>Yn ymarferol, anaml iawn y defnyddir y ddarpariaeth hon gan fod samplu safle'n cael ei gadw'n llawer uwch na'r trothwyon gofynnol ac felly nid oes angen sampl newydd fel arfer. Ar ben hynny, mae'r cyfyngiad 7 diwrnod yn golygu heriau logistaidd sylweddol i'w cyflawni heb reswm clir dros fynnu hyn, byddai cael gwared ar y terfyn amser yn dileu'r heriau hyn. |

| | |
|---|---|
| 4. Dileu'r gofyniad i gymryd sampl cyn y tymor | Mae'r Rheoliadau presennol yn mynnu bod sampl yn cael ei gymryd ar bob safle dŵr ymdrochi ychydig cyn dechrau'r tymor ymdrochi er mwyn i'r safle gael ei ddosbarthu y tymor hwnnw. Pwrpas arfaethedig cymryd sampl cyn y tymor yw tynnu sylw at broblemau posibl ar safleoedd cyn dechrau'r tymor ymdrochi.<br><br>Mae samplu'n fwyaf effeithiol pan gaiff ei ddefnyddio i bennu tueddiadau hirdymor o ran ansawdd dŵr wrth gymharu samplau lluosog dros gyfnod o amser, felly mae un sampl yn annhebygol o ddarparu data am faterion mewn safleoedd y gellir eu defnyddio i lywio argymhellion iechyd y cyhoedd. Ar hyn o bryd, mae'r Rheoliadau'n mynnu bod y sampl hwn yn cael ei gymryd a'i defnyddio i ddosbarthu, felly mae angen adnoddau ychwanegol i sicrhau bod y gofyniad hwn yn cael ei fodloni. Mae'r sampl hwn yn cael ei gymryd y tu allan i'r tymor ond mae'n ofynnol ei ddefnyddio i ddosbarthu gan wneud y dosbarthiad yn llai cynrychioliadol o'r tymor dynodedig. Gan fod pob safle'n cael ei samplo'n rheolaidd, ni ragwelir y bydd dileu'r gofyniad samplu cyn y tymor yn arwain at ganlyniadau negyddol i ymdrochwyr na gallu'r asiantaethau perthnasol i rannu canllawiau o ansawdd uchel ar iechyd y cyhoedd. |
| 5. Pennu gwerth z y 95ed canradd i dri lle degol, yn hytrach na'r 2 le presennol | Mae hwn yn ddiwygiad technegol iawn i'r manylder a ganiateir ar gyfer gwerthoedd a ddefnyddir i gyfrifo dosbarthiadau ansawdd dŵr. Yn yr hyn y deellir ei fod yn hepgoriad drwy gamgymeriad o Gyfarwyddeb wreiddiol yr UE, mae gwerthoedd z gwahanol yn cael eu pennu i nifer wahanol o leoedd degol. Nid ydym wedi gallu canfod cyfiawnhad ystadegol cadarn dros y gwahaniaeth hwn. Byddai'r diwygiad a awgrymir yn pennu pob gwerth-z i dri lle degol at ddibenion cysondeb a chymharu.<br><br>Yn ymarferol, nid yw'r newid hwn yn debygol o achosi gwahaniaethau digon mawr mewn ystadegau ansawdd dŵr a gyfrifir i effeithio ar y dosbarthiadau a roddir i safleoedd. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gallai safleoedd o fewn 1 pwynt canradd i ffiniau dosbarthiadau roi dosbarthiad mwy manwl yn seiliedig ar y newid hwn gan leihau'r siawns o gamddosbarthu. |
| 6. Dileu'r gofyniad i nodi a darparu manylion cyswllt unrhyw berson sy'n gyfrifol am weithredu mewn perthynas ag STP mewn proffil dŵr ymdrochi | Dan y Rheoliadau presennol, mae'n ofynnol darparu manylion cyswllt 'unrhyw berson' sy'n gyfrifol am weithredu digwyddiad STP ar broffil dŵr ymdrochi safle ar Swimfo yn Lloegr ac archwiliwr dŵr ymdrochi Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru.<br><br>Mewn gwirionedd, nid oes yr un unigolyn unigol yn gyfrifol am gamau gweithredu STP, felly mae Asiantaeth yr Amgylchedd/Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn rhannu manylion cyswllt cyffredinol asiantaethau er mwyn gallu brysbennu gohebiaeth yn fewnol pan fo angen. Byddai'r newid arfaethedig yn diweddaru'r Rheoliadau yn unol â'r arferion presennol. |
| 7. Dileu gofyniad penodol i adnabod sampl a gwaith | Ers cyflwyno Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013, mae technolegau newydd a mwy ymarferol wedi cael eu cyflwyno i ddisodli marcio gwaith papur samplu ag inc annileadwy, fel codau bar a sticeri, |

| | |
|---|---|
| papur gan ddefnyddio inc annileadwy | systemau tracio electronig, a dogfennau electronig. Byddai'r newid arfaethedig hwn yn diweddaru'r Rheoliadau yn unol â'r arferion presennol. |
| 8. Dileu'r gofyniad i gymryd samplau eraill yn lle rhai a gollir yn ystod Sefyllfaoedd Anarferol | Mae Sefyllfa Anarferol yn ddigwyddiad neu gyfuniad o ddigwyddiadau sy'n effeithio ar ansawdd dŵr ymdrochi na fyddai Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn disgwyl ei weld yn digwydd fwy nag unwaith bob pedair blynedd. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, ar hyn o bryd mae'n ofynnol i Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru atal y gwaith monitro, ac yna cymryd samplau newydd yn lle'r rhai a gollwyd, yn syth ar ôl i'r Sefyllfa Anarferol ddod i ben.<br><br>Yn y rhan fwyaf o achosion, cymerir digon o samplau dros dymor ymdrochi fel nad oes angen sampl arall i fodloni'r lefelau samplo gofynnol. Gan y gellir cymhwyso sefyllfaoedd anarferol yn ôl-weithredol, gwneir cryn ymdrech i gymryd samplau ychwanegol 'rhag ofn' pryd bynnag y bydd sefyllfa anarferol bosibl wedi digwydd er mwyn caniatáu i sampl fod ar gael i gymryd lle un a ddiystyrir oherwydd sefyllfa anarferol. O ganlyniad, er mai anaml y defnyddir y sampl ychwanegol a gymerir yn syth ar ôl Sefyllfa Anarferol, mae'n gofyn am ymdrech anghymesur i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Rheoliadau.<br><br>Yn y rhan fwyaf o achosion, cymerir digon o samplau dros dymor ymdrochi fel nad oes angen sampl arall i fodloni'r lefelau samplo gofynnol. O ganlyniad, anaml iawn y defnyddir y sampl ychwanegol a gymerir yn syth ar ôl Sefyllfa Anarferol.<br><br>Byddai'r diwygiad arfaethedig yn dileu'r angen i gymryd samplau newydd lle nad ydynt o fudd i'r ddealltwriaeth o ansawdd dŵr ar safleoedd. Byddai hyn yn arwain at fanteision sylweddol i gapasiti samplo a phrofi'r asiantaethau perthnasol. |
| 9. Diwygio rheoliad 5(1)(a) i bennu dyddiad targed newydd ar gyfer dosbarthu'r holl ddyfroedd ymdrochi fel rhai 'digonol' o leiaf | Mae'r Rheoliadau'n datgan y bydd cyrff y llywodraeth yn arfer eu pwerau perthnasol i sicrhau bod pob dŵr ymdrochi, erbyn diwedd y tymor ymdrochi yn 2015, yn cael ei ddosbarthu'n "ddigonol" o leiaf dan reoliad 11. Mae hwn yn dal yn darged parhaus; felly byddwn yn diweddaru'r targed hwn i ddyddiad yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod awdurdodau perthnasol yn parhau i weithio tuag at hyn. |

**Cwestiynau Gwerthuso**

**C16**. Ydych chi'n fodlon â'r 9 diwygiad technegol arfaethedig a restrir uchod?

*(gofynnol)*

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

**C17.** [Os 'Nac ydw' i C16] Pa un o'r 9 diwygiad technegol arfaethedig, yn eich barn chi, sy'n codi pryderon neu a allai gael effeithiau negyddol?

*(gofynnol) - [cewch ddewis mwy nag un]*

1. Bod ag ardal diffiniedig ar gyfer pob dŵr ymdrochi
2. Dileu'r gofyniad i gymryd sampl i ddod â digwyddiadau llygredd tymor byr (STP) i ben
3. Cael gwared â'r terfyn amser o 7 diwrnod lle mae'n rhaid cymryd sampl newydd dan STP
4. Dileu'r gofyniad i gymryd sampl cyn y tymor
5. Pennu gwerth z y 95ed canradd i dri lle degol, yn hytrach na'r 2 le presennol
6. Dileu'r gofyniad i nodi a darparu manylion cyswllt unrhyw berson sy'n gyfrifol am weithredu mewn perthynas ag STP mewn proffil dŵr ymdrochi
7. Dileu gofyniad penodol i adnabod sampl a gwaith papur gan ddefnyddio inc annileadwy
8. Dileu'r gofyniad i gymryd samplau eraill yn lle rhai a gollir yn ystod Sefyllfaoedd Anarferol
9. Diwygio rheoliad 5(1)(a) i bennu dyddiad targed newydd ar gyfer dosbarthu'r holl ddyfroedd ymdrochi fel rhai 'digonol' o leiaf

**C18.** [Os 'Nac ydw' i C16] Pa effeithiau negyddol ydych chi'n eu rhagweld o ganlyniad i'r diwygiad(au) technegol?

*(gofynnol) - [cewch ddewis mwy nag un]*

- Mae'r diwygiad(au) yn lleihau'r gofynion monitro statudol cyffredinol.
- Gallai'r diwygiad(au) leihau'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ynghylch pryd y mae'n ddiogel iddynt ddefnyddio dŵr ymdrochi.
- Mae'r diwygiad(au) yn lleihau'r atebolrwydd cyffredinol ar Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Gallai'r diwygiad(au) leihau trylwyredd y dulliau monitro.

- Arall (rhowch fanylion)

Nodwch arall

**Cwestiynau Gwerthuso**

**[BUSNESAU a CHWMNÏAU DŴR a THIRFEDDIANWYR a FFERMWYR ac AWDURDODAU LLEOL a CHYRFF ANLLYWODRAETHOL]**

## Asesiad Effaith

**C19.** Ydych chi'n credu ei bod yn debygol y bydd unrhyw un o'r diwygiadau arfaethedig yn cael effaith economaidd negyddol neu gadarnhaol ar eich sefydliad?

Mae gennym ddiddordeb penodol mewn clywed gan y canlynol:

- Busnesau
- Ffermwyr
- Tirfeddianwyr
- Awdurdodau lleol
- Cyrff Anllywodraethol
- Cwmnïau dŵr

*(gofynnol)*

- Cadarnhaol yn Gyffredinol (Gallai hyn gynnwys cynnydd mewn elw/refeniw neu lai o wariant, ond nid yw wedi'i gyfyngu i hynny)
- Negyddol yn Gyffredinol (Gallai hyn gynnwys colled mewn elw/refeniw neu fwy o wariant, ond nid yw wedi'i gyfyngu i hynny)
- Cymysgedd o effeithiau cadarnhaol a negyddol
- Dim newid
- Ddim yn gwybod

**C20.** [Os 'Negyddol' i C19] Ar hyn o bryd, pa ystod sy'n disgrifio orau'r effeithiau negyddol blynyddol a amcangyfrifir ar eich busnes neu'ch sefydliad pe bai diwygiadau'n cael eu cyflwyno?

*(Ddim yn ofynnol)*

- Llai na £10,000/y flwyddyn
- £10,001 - £50,000/y flwyddyn

- £50,001-£100,000/y flwyddyn
- £100,001-£1,000,000/y flwyddyn
- Mwy na £1,000,000/y flwyddyn
- Ddim yn gwybod
- Mae’n well gen i beidio â dweud

**C21.** [Os ‘Negyddol’ i C19] Sut fyddech chi’n disgrifio hyd a lled yr effaith ddisgwyliedig ar eich busnes neu eich sefydliad?

*(Ddim yn ofynnol)*

- Effaith fach
- Effaith sylweddol
- Effaith sylweddol iawn
- Ddim yn gwybod

**C22.** [Os ‘Negyddol’ i C19] Pam ydych chi’n meddwl ei bod hi’n debygol y bydd y diwygiadau arfaethedig yn cael effaith negyddol gyffredinol? Ychwanegwch unrhyw beth yr hoffech i ni ei ystyried yma.

*(Ddim yn ofynnol)*

**C23.** [Os ‘Cadarnhaol’ i C19] Ar hyn o bryd, pa ystod sy’n disgrifio orau’r effeithiau cadarnhaol blynyddol a amcangyfrifir ar eich busnes neu eich sefydliad pe bai diwygiadau’n cael eu cyflwyno?

*(ddim yn ofynnol)*

- Llai na £10,000/y flwyddyn
- £10,001-£50,000/y flwyddyn
- £50,001-£100,000/y flwyddyn
- £100,001-£1,000,000/y flwyddyn
- Mwy na £1,000,000/y flwyddyn
- Ddim yn gwybod
- Mae’n well gen i beidio â dweud

**C24.** [Os ‘Cadarnhaol’ i C19] Sut fyddech chi’n disgrifio hyd a lled yr effaith ddisgwyliedig ar eich busnes neu eich sefydliad?

*(ddim yn ofynnol)*

- Effaith fach
- Effaith sylweddol
- Effaith sylweddol iawn

**C25.** [Os ‘Cadarnhaol’ i C19] Pam ydych chi’n meddwl ei bod hi’n debygol y bydd y diwygiadau arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar eich busnes neu eich sefydliad? Ychwanegwch unrhyw beth yr hoffech i ni ei ystyried yma.

*(ddim yn ofynnol)*

**C26.** [Os ‘Cymysgedd o effeithiau cadarnhaol a negyddol’ o C19]. Beth yw’r prif resymau am eich ateb? Ychwanegwch unrhyw beth yr hoffech i ni ei ystyried yma.

*(ddim yn ofynnol)*

## Diwygiadau Ehangach a Galwad am Dystiolaeth

Yn ogystal â’n pecyn diwygio arfaethedig presennol, mae’r ddwy lywodraeth yn ystyried camau pellach o ddiwygiadau i’r Rheoliadau fel eu bod yn diwallu anghenion y cyhoedd a thimau monitro Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae’r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn a thystiolaeth a fydd yn sail i’r camau hyn yn y dyfodol. Yn benodol, mae’r diwygiadau ehangach hyn yn ehangu’r diffiniad o ymdrochwyr, a’r defnydd o bwyntiau monitro lluosog mewn safleoedd i lywio dosbarthiadau. Rydym yn awyddus i ehangu ein sylfaen dystiolaeth drwy’r ymgynghoriad hwn cyn eu cynnwys, o bosibl, mewn camau diwygio yn y dyfodol.

### Diwygiad ehangach 1 – Esbonio ac ehangu’r diffiniad o ‘ymdrochwyr’ i gynnwys defnyddwyr dŵr eraill

Mae’r term ‘ymdrochwyr’ yn y Rheoliadau yn cael ei ddeall ar hyn o bryd gan ei ddiffiniad cyffredin i olygu nofwyr yn unig. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cynnydd ym mhoblogrwydd ffyrdd eraill o ddefnyddio ein dyfroedd gan y cyhoedd. Mae mwy o bobl yn rhwyfo, syrffio, caiacio a phadlfyrddio ymysg defnyddwyr dŵr eraill sydd hefyd yn defnyddio mwy a mwy o ddyfroedd ymdrochi y tu allan i’r tymor. Er mwyn gwneud i’r Rheoliadau adlewyrchu defnydd modern yn well ac adlewyrchu’r duedd hon, rydym yn ceisio barn ynghylch a ddylid egluro ac ehangu’r diffiniad o ‘ymdrochwr’ i gynnwys amrywiaeth ehangach o ddefnyddwyr dŵr.

Mae manteision posibl y diwygiad hwn yn cynnwys helpu pobl nad ydynt yn nofio i ddeall yn well beth yw'r risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â defnyddio dyfroedd ymdrochi, effeithiau cadarnhaol ar economïau hamdden a thwristiaeth lleol, a gallai mwy o safleoedd fod yn gymwys i gael eu dynodi'n ddŵr ymdrochi. Fodd bynnag, gall y diwygiad hwn gyflwyno ansicrwydd o ran y cyngor ar iechyd y cyhoedd ac i bwy y mae'n berthnasol, a gallai fod yn ddefnydd gwael o arian cyhoeddus mewn safleoedd monitro lle nad oes llawer o nofwyr.

### Diwygiad ehangach 2 – Defnyddio pwyntiau monitro niferus ym mhob safle dŵr ymdrochi i ddosbarthu ansawdd dŵr

Dan y Rheoliadau presennol, mae ansawdd dŵr mewn safleoedd yn cael ei brofi yn y pwynt lle ceir y rhan fwyaf o ymdrochwyr. Fodd bynnag, mae hyn yn arwain at ddadansoddiad gofodol gwael o ansawdd dŵr safle ymdrochi. Efallai y bydd amrywiad sylweddol yn ansawdd y dŵr ar draws safle, er enghraifft mewn afon, bydd yr ansawdd yn wahanol os yw'r monitro'n digwydd i fyny'r afon neu i lawr yr afon o ffynhonnell llygredd. Ar ben hynny, gall gwahanol ddefnyddwyr dŵr ddefnyddio gwahanol rannau o'r un dŵr ymdrochi, er enghraifft, mae'n debygol y bydd caiacwyr y môr yn mynd ymhellach i ffwrdd o'r arfordir na nofwyr. Gallai pwyntiau monitro niferus ar bob safle dŵr ymdrochi ddarparu mwy o wybodaeth ofodol a fydd yn helpu defnyddwyr dŵr i asesu eu risg unigol.

Gallai hyn hefyd roi darlun cliriach o ansawdd y dŵr mewn safleoedd, a rhoi gwybod i'r awdurdod perthnasol pa ardal o ddŵr ymdrochi y gallai'r cyhoedd ddymuno ei defnyddio. Fodd bynnag, bydd cyflwyno nifer o bwyntiau monitro yn arwain at gostau ychwanegol i awdurdodau perthnasol ac yn cynyddu cymhlethdod y system ddosbarthu. Efallai y bydd dehongli data ychwanegol yn drysu'r cyhoedd, gan y bydd hyn yn lleihau'r gallu i gymharu data â'r system samplo un pwynt flaenorol.

### Cwestiynau Gwerthuso: Cais am Farn a Thystiolaeth

**C27.** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r llywodraeth fynd ati i ddiwygio'n ehangach y Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 ar gyfer Cymru a Lloegr i gynnwys ehangu'r diffiniad o 'ymdrochwyr'?

*(gofynnol)*

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

- Ddim yn gwybod

**C28.** Rhowch reswm am eich ateb

**Q29.** Pa ddefnyddwyr dŵr ddylai gael eu cynnwys yn y diffiniad o ‘ymdrochwyr’?

*(gofynnol)* - [cewch ddewis mwy nag un]

- Pysgotwyr (pysgota)
- Caiacwyr/Canŵwyr
- Padlfyrddwyr
- Padlwyr (y rhai sydd yn y dŵr ond heb fod yn llwyr dan y dŵr)
- Rhwyfwyr
- Defnyddwyr cychod bach
- Syrffwyr
- Nofwyr
- Bordhwylwyr

- Arall (rhowch fanylion)

**C30.** I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno y dylai’r llywodraeth fynd ati i ddiwygio’n ehangach y Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 ar gyfer Cymru a Lloegr i gynnwys defnyddio pwyntiau monitro niferus ar safleoedd dŵr ymdrochi?

*(gofynnol)*

- Cytuno’n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno’n gryf
- Ddim yn gwybod

**C31.** Rhowch reswm am eich ateb

**Q32.** Rhowch ddolenni i unrhyw dystiolaeth berthnasol rydych chi wedi'i defnyddio i gyfrannu at eich safbwyntiau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn. Os oes unrhyw beth arall yr hoffech i ni ei wybod neu ei ystyried, ychwanegwch ef yma.

Mae gennym ddiddordeb penodol mewn clywed am y canlynol:

- Defnyddio pwyntiau monitro niferus
- Ehangu'r diffiniad o ymdrochwyr mewn safleoedd dŵr ymdrochi.

*(ddim yn ofynnol)*

## Ystyriaethau Ychwanegol

### Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Daeth Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) i rym ym mis Ebrill 2011 (a.149 Deddf Cydraddoldeb 2010) ac erbyn hyn mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i gyflawni'r amcanion a nodir o dan a149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Nid yw'r diwygiadau arfaethedig hyn i Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 yn codi materion o bwys sy'n berthnasol i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus oherwydd eu bod yn ymwneud â gwella ansawdd dŵr, a fydd o fudd i bawb sy'n defnyddio dŵr ac na fyddant yn effeithio'n gyffredinol ar grwpiau sy'n rhannu nodwedd warchodedig yn wahanol. Byddwn yn parhau i ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth ddrafftio canllawiau newydd ar gyfer ceisiadau am ddynodi dŵr ymdrochi.

### Datganiad Polisi Egwyddorion Amgylcheddol

Mae Deddf yr Amgylchedd 2021, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn gosod dyletswydd i roi 'sylw dyledus' i egwyddorion a meini prawf penodol wrth ddatblygu polisi. Mae'r rhain yn cynnwys gwella'r amgylchedd, yr economi, cymdeithas a diwylliant. Mae Defra a Llywodraeth Cymru wedi ystyried effeithiau'r diwygiadau arfaethedig hyn i'r Rheoliadau a byddant yn parhau i wneud hynny wrth i'r polisi gael ei ddatblygu.

Mae effeithiau cadarnhaol yn cynnwys:

- Gwella ansawdd dŵr, ar gyfer iechyd pobl a'r amgylchedd ehangach, drwy ganiatáu mwy o amser i safleoedd dŵr ymdrochi wella.
- Canolbwyntio ymyriadau (a allai fod yn ddwys o ran carbon) ar safleoedd lle mae llwybr ymarferol a chymesur at welliant.

- Cyflwyno'r potensial i ymestyn y tymor monitro mewn safleoedd penodol fel nad yw gwelliannau i ansawdd dŵr wedi'u cyfyngu i'r tymor ymdrochi presennol.

Gallai effeithiau negyddol gynnwys:

- Mwy o ymyriadau sy'n ddwys o ran carbon (er enghraifft, gosod diheintio uwchfioled mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff) oherwydd bod safleoedd yn cael mwy o amser i wella neu oherwydd bod tymor ymdrochi hirach.
- Ceisiadau i ddynodi dŵr ymdrochi yn cael eu gwrthod ar y sail nad oes llwybr ymarferol a chymesur i'w wella.
- Tarfu posibl ar fywyd gwyllt a chynefinoedd os bydd dyfroedd ymdrochi'n cael eu defnyddio'n ehangach y tu allan i'r tymor ymdrochi presennol.

**Fframwaith Rheoleiddio Gwell**

Mae'r cynigion hyn wedi cael eu datblygu gan roi sylw dyledus i amcanion y Fframwaith Rheoleiddio Gwell, gan gynnwys drwy Asesiad De Minimis. Mae'r ddwy lywodraeth yn cydnabod y dylai rheoleiddio gael ei gymhwyso'n gymesur, a bod yn rhaid cael digon o dystiolaeth i gefnogi rheoleiddio fel y dull priodol. Byddwn yn parhau i ddilyn y Fframwaith Rheoleiddio Gwell wrth wneud y diwygiadau arfaethedig hyn i Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013.

## Proses Ymgynghori

**Sut i ymateb**

Mae Defra a Llywodraeth Cymru yn annog partïon i ymateb i'r ymgynghoriad drwy lwyfan ymgynghori Citizen Space.

Yn unol â'n polisi o fod yn agored ac yn dryloyw, byddwn yn cyhoeddi fersiynau nad ydynt yn gyfrinachol o'r ymatebion ar ein tudalennau gwe perthnasol. Os yw eich ymateb yn cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n sensitif yn eich barn chi ac na fyddech yn dymuno iddi gael ei chyhoeddi, rhowch wybod i ni drwy eich ymateb i C1(Cyfrinachedd) ac esboniwch pam eich bod yn ei hystyried yn sensitif.

**Hyd**

Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg o 00.01 ar 12 Tachwedd 2024 tan 23.59 ar 23 Rhagfyr 2024.

**Manylion cyswllt**

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ar yr ymgynghoriad at bathingwater@defra.gov.uk

**Cydymffurfio ag egwyddorion ymgynghori'r llywodraeth**

Wrth baratoi'r ymgynghoriad hwn, mae Defra a Llywodraeth Cymru wedi ystyried egwyddorion ymgynghori cyhoeddedig y llywodraeth, sy'n nodi'r egwyddorion y dylai adrannau'r llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu wrth ymgynghori â rhanddeiliaid.

**Datganiad am sut rydym yn defnyddio gwybodaeth a data personol a ddarperir mewn ymatebion i'r ymgynghoriad**

Bydd unrhyw ddata personol a roddwch wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei brosesu gan Defra a Llywodraeth Cymru, fel rheolwyr, yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

Y ddeddfwriaeth yw'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. Mae 'data personol' yn wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn byw y gellir ei adnabod ohono.

Rydym yn prosesu'r data personol hwn at ddibenion ein gwaith. Mae'r prosesu hwn yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni ein swyddogaethau ac fe'i cyflawnir er budd y cyhoedd, er mwyn ystyried ymatebion i ymgynghoriadau a sicrhau ein bod yn ymgynghori'n briodol ar y diwygiadau i Reoliad Dyfroedd Ymdrochi 2013.

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Defra a Llywodraeth Cymru yn prosesu data personol, eich hawliau mewn perthynas â'r data personol hwnnw, sut mae cysylltu â ni, manylion Swyddog Diogelu Data Defra, a pha mor hir rydym yn cadw data personol, darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd.

Mae ein defnydd o'r holl wybodaeth a data personol a dderbyniwn hefyd yn ddarostyngedig i Ran 9 Deddf Menter 2002. Efallai y byddwn yn dymuno cyfeirio at sylwadau a gafwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn mewn cyhoeddiadau yn y dyfodol. Wrth benderfynu a ddylid gwneud hynny, byddwn yn ystyried yr angen i eithrio rhag cyhoeddi, cyn belled ag y bo'n ymarferol, unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â materion preifat unigolyn neu unrhyw wybodaeth fasnachol sy'n ymwneud â busnes a allai, os caiff ei chyhoeddi, niweidio buddiannau'r unigolyn yn sylweddol, neu, yn ôl y digwydd, fuddiannau busnes dilys y busnes hwnnw.

Sylwch y gall gwybodaeth a data personol a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn fod yn destun ceisiadau gan aelodau o'r cyhoedd dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Wrth ymateb i geisiadau o'r fath, byddwn yn ystyried yn llawn unrhyw sylwadau a wneir gennych i gefnogi cyfrinachedd. Byddwn hefyd yn ystyried ein cyfrifoldebau dan y ddeddfwriaeth diogelu data y cyfeirir ati uchod a dan Ran 9 Deddf Menter 2002.

Mae rhagor o fanylion am ddull gweithredu Defra o ran cyfrinachedd ar gael ar-lein yn Siarter Gwybodaeth Bersonol Defra ac yn Hysbysiad Preifatrwydd ein rhaglen.

**Ar ôl yr ymgynghoriad**

Ar ôl yr ymgynghoriad, bydd Defra a Llywodraeth Cymru yn penderfynu'n annibynnol a ddylid bwrw ymlaen â'r diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013, ac a oes angen unrhyw newidiadau pellach.

Bydd Defra yn cyhoeddi ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad hwn mewn da bryd ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.